# Diffoddwr Tân






Dyma Hayley. Mae hi'n ddiffoddwr tân. Mae hi'n byw yn Llanelli.
Mae hi'n gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

**Beth mae hi'n wneud?**

Weithiau, mae hi'n gyrru'r injan dân yn gyflym i fynd i roi help i bobl. Mae'r seiren yn canu ac mae'r golau glas yn fflachio ond mae Hayley yn gyrru'n ofalus iawn.
Weithiau, mae diffoddwr tân arall yn gyrru ac mae Hayley yn eistedd yn yr injan dân ond mae hi'n barod i helpu. Yna, mae hi'n helpu i ddiffodd y tân neu helpu pobl mewn damwain.

**Pam mae Hayley yn arwres?**

Mae hi'n helpu pobl eraill ac mae hi'n achub pobl. Mae hi'n ddewr iawn ac mae hi'n gryf hefyd.

Mae hi'n arwres!

| | | | |
|---|---|---|---|
| diffoddwr tân | firefighter | gyrru | to drive |
| gweithio | to work | golau | light |
| gwasanaeth | service | diffodd | to extinguish, put out |
| achub | to rescue, save | damwain, damweiniau | accident, accidents |
| weithiau | sometimes | arwres | heroine |